# SL(5)591 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth i atal, diogelu yn erbyn, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau fel a ganlyn—

(a) caniatáu i fwytai, caffis, bariau a thafarndai agor o dan do (er bod rhaid cymryd mesurau i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y fangre);

(a) caniatáu i neuaddau bingo, alïau bowlio a thai arwerthiant agor (ond unwaith eto rhaid cymryd mesurau i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws);

(c) llacio’r cyfyngiad ar gynulliadau, fel y caniateir cynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 30 o bobl (pa un a yw’n ymwneud â gweithgareddau yn yr awyr agored sydd wedi eu trefnu ai peidio).

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y’i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi na chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod y coronafeirws yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol, a bod angen ymateb brys er lles iechyd y cyhoedd. At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 9 Gorffennaf, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 31 Gorffennaf."

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro hefyd na fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, nodir:

"Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi. Yn gryno, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ystyried bod cau nifer o'r sectorau a asesir wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd dan anfantais. Mae'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith hefyd wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau, fel pobl BAME neu bobl sy'n agored i niwed, a dylai asesiadau risg ystyried y ffactorau hyn. Dylai'r cynlluniau i ailagor hefyd ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o gleientiaid, megis hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau."

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Awst 2020**